LEG-22-2002(min)

**CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU**

**COFNODION:**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 5 Tachwedd 2002 |
| **Amser:** | 9:00 a.m. |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**Presennol:**

| | |
|---|---|
| Mick Bates | (Democrat Rhyddfrydol) |
| Rosemary Butler | (Llafur) |
| Ann Jones | (Llafur) |
| Dr Dai Lloyd | (Plaid Cymru) |
| Owen John Thomas | (Plaid Cymru) |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| John Turnbull | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| Huw Rowlands | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Simon Thwaite | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**: Ron Davies, Pauline Jarman a Karen Sinclair

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion sy'n codi – LEG-21-2002(min)**

1.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Hydref 2002.

**Eitem 2: Adroddiad y Cadeirydd**

2.1 Dywedodd y Cadeirydd y dylid symud ymlaen i'r Gorchmynion ar unwaith, gan fod y Pwyllgor yn ymweld â Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol y bore hwnnw.

**Eitem 3: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried**

**LC553 – Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Gweithredu Trefniadau Gweithredol neu Amgen Gwahanol) (Cymru) 2002**

3.1 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Safonol.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol y cyfle i weld drafft cynnar a nodwyd nifer o bwyntiau a ystyriwyd yn y drafft terfynol.

3.3 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC553 (Adroddiad).

**LC554 – Rheoliadau Erthylu (Diwygio) (Cymru) 2002**

3.4 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Safonol.

3.5 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor ddau sylw cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad.

3.6 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC554 (Adroddiad).

**Eitem 4: Ymweliad â Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol**

4.1 Atgoffodd y Cadeirydd y Pwyllgor fod cwestiwn cyffredinol wedi ei godi yng nghyfarfod y Pwyllgor Deddfau ar 9fed Gorffennaf 2002 ynglŷn â'r weithdrefn o ddrafftio offerynnau statudol, gan ei fod yn ymddangos bod gorchmynion a gyflwynwyd yn cynnwys gwallau teipograffyddol o hyd. Cynigiodd y Cadeirydd i drefnu ymweliad â Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol er mwyn deall y broses o ddrafftio deddfwriaethol, yng ngoleuni'r pryder hwn.

4.2 Yn unol â'r penderfyniad hwn, ar ôl trafod Offerynnau Statudol, ymwelodd yr Aelodau â Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol ar gyfer sesiwn briffio ar y broses o Ddrafftio Deddfwriaeth y Cynulliad.

4.3 Yn Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol, cyfarchwyd yr Aelodau gan y Cwnsler Cyffredinol Cynorthwyol Ms Angela Parkes, Uwch Gwnsler y Cynulliad Mr Gwyn O Griffiths, Cwnsler y Cynulliad Ms Catrin Huws a'r Uwch Swyddog Gweithredol Mr Alun Jenkins.

4.4 Diolchodd Ms Angela Parkes i ddirprwyaeth y Pwyllgor Deddfau am roi o'u hamser ac am ddangos diddordeb yng ngwaith Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol. Dywedodd fod Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol yn ddiolchgar am feirniadaeth adeiladol a thanlinellodd fod

y broses o ddrafftio deddfwriaeth yn waith tîm, a bod y Pwyllgor Deddfau yn rhan o'r tîm hwnnw. Ar ôl rhoi trosolwg o waith Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol ac esbonio rôl yr Uned Reoli Deddfwriaeth, dywedodd Ms Parkes wrth y Pwyllgor am y system gamau yn y broses o ddrafftio deddfwriaeth. Cyrhaeddodd Offerynnau Statudol y Pwyllgor Deddfau ar ddiwedd y broses hon ar gam deg.

4.5 Dywedodd Mr Gwyn O Griffiths wrth y ddirprwyaeth am y broses ddrafftio ei hun. Dechreuir y broses ddrafftio ar ôl nodi'r rhesymau dros ddrafftio Offerynnau Statudol ac ar ôl i Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol dderbyn cyfarwyddiadau ar gyfer datblygu polisïau. Gallai'r ddeddfwriaeth y gofynnwyd amdani naill ai ddilyn deddfwriaeth arall a wnaed gan Whitehall neu gellir ei drafftio o'r cychwyn. Roedd yr anawsterau a wynebwyd gan y cyfreithwyr yn y cyfuniad o ba mor gyflym yr oedd yn rhaid iddynt greu deddfwriaeth er mwyn cyrraedd terfynau amser caeth a thrwyadledd gwaith paratoi yr Offerynnau Statudol. Nid oedd amser bob tro i ddangos deddfwriaeth ddrafft i Ymgynghorydd Cyfreithiol y Pwyllgor Deddfau er mwyn ei gwirio ymlaen llaw. Felly, roedd gwallau yn ymddangos ynddi o hyd heb i neb sylwi arnynt.

4.6 Codwyd cwestiwn ynglŷn â'r cyfleoedd sydd ar gael i Aelodau'r Cynulliad newid deddfwriaeth. Esboniwyd bod y Gweinidog a'r swyddogion yn aml yn ystyried polisïau arfaethedig ymlaen llaw. Roedd cwestiwn arall yn ymwneud â'r broses o weithredu'r asesiad o effaith rheoleiddiol. Eglurwyd nad oedd cyfreithwyr yn ymwneud â'r broses honno. Cynhaliwyd ymchwiliad ynglŷn ag amlder ceisiadau cleientiaid i ddrafftio mewn ffordd na fyddai o fewn y ddeddfwriaeth sylfaenol. Esboniwyd nad yw hyn yn digwydd yn aml iawn.

4.7 Esboniwyd y broses o gyd-ddrafftio deddfwriaeth yn Gymraeg a Saesneg i'r ddirprwyaeth. Golygai'r broses hon ddau destun gwreiddiol yn hytrach na chyfieithu un testun i iaith arall. Crybwyllwyd bod yr holl offerynnau statudol a gyd-ddrafftir yn cael eu gwirio gan gyfieithwyr, a oedd â rôl wahanol i olygyddion.

4.8 Codwyd cwestiwn ynglŷn â chostau a hyd y broses gyd-ddrafftio. Nodwyd bod y broses gyd-ddrafftio yn hwy a'i bod yn golygu bod dau gyfreithiwr yn gweithio. Fodd bynnag, paratowyd y ddeddfwriaeth a ddaeth yn ei sgîl yn drylwyr dros ben a dylai gynnwys llai o wallau. Roedd yr anawsterau wrth gyd-ddrafftio deddfwriaeth yn cynnwys yr angen i gyflogi cyfreithwyr dwyieithog a fyddai'n ymgyfarwyddo â'r modd hwn o baratoi

offerynnau statudol. Gobeithiai Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol y byddai cadw mewn cysylltiad â Phrifysgolion yn eu helpu i ddatblygu staff a sefydlu terminoleg ac ymadroddion a gymeradwywyd.

4.9 Atgoffodd Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau fod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn dymuno cyd-ddrafftio ei holl ddeddfwriaeth yn y pen draw ac ar ran y Pwyllgor cymeradwyodd waith Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol am gyd-ddrafftio Offerynnau Statudol. Penderfynwyd paratoi llythyr i'r Cwnsler Cyffredinol at y diben hwn. **Gweithredu: Ymgynghorydd Cyfreithiol/Clerc**

**Eitem 5: Unrhyw fusnes arall a Dyddiad y cyfarfod Nesaf**

5.1 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 12 Tachwedd 2002.